# Uned 18: Gweithdrefnau ac Ymarfer Ymchwiliadau Troseddol

## Canllawiau cyflwyno

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn archwilio elfennau allweddol o'r broses ymchwiliadau troseddol. Mae'n gyfle cyffrous i weld y broses o'r cychwyn, e.e. o dderbyn yr alwad 999 hyd at ei chwblhau, e.e. cyflwyno tystiolaeth yn y llysoedd troseddol. Ar hyd y ffordd, bydd y dysgwyr yn dysgu am brosesau a gweithdrefnau a ddefnyddir gan yr heddlu ac asiantaethau eraill wrth ymchwilio i drosedd. Byddant yn dysgu am y prosesau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â sicrhau euogfarn troseddol yn y llys, ac yn datblygu gwybodaeth am bwysigrwydd diogelu safle trosedd. Bydd y dysgwyr yn archwilio baich y profi ar gyfer cyfraith droseddol ac yn trafod gwahanol fathau a chategorïau o droseddu. Ar ben hynny, mae elfen ymarferol i'r uned hon, gan fod rhaid i'r dysgwyr nid yn unig gymhwyso'u gwybodaeth i droseddau ac astudiaethau achos go iawn, ond hefyd gyflawni ymchwiliad o safle trosedd ffug.

### Mynd i'r afael â'r uned

Bydd yr uned hon o ddiddordeb a defnydd arbennig i ddysgwyr sy'n gobeithio dilyn gyrfa mewn un o'r galwedigaethau niferus sy'n gysylltiedig â chyfiawnder troseddol. O ganlyniad, bydd yn darparu cyfle i gwmpasu natur, rolau a chyfrifoldebau'r galwedigaethau hynny ar hyd y cyflwyno. Mae natur yr uned yn golygu ei bod yn cysylltu'n agos ag *Uned 15: Pwerau'r Heddlu a'r Gyfraith*, felly os yw protocolau eich canolfan yn caniatáu hynny, bydd ymdrin â'r cyflwyno mewn modd cyfunol, integredig o fudd i'r dysgwyr. Ar ben hynny, mae'r uned hon yn dod i ben yn y broses cyfiawnder troseddol lle mae *Uned 8: Gofal Gwarchodol* yn cychwyn, felly, eto, os bydd modd, bydd trefnu i gyflwyno unedau er mwyn cydweddu â'i gilydd yn rhoi golwg fwy cyfannol i'r dysgwyr ar y system cyfiawnder troseddol.

**Mae'n bwysig nodi, fel yn achos pob pwnc sy'n ymwneud â'r gyfraith, fod cynnwys yr uned hon yn gallu newid, a bod rheoliadau a gweithdrefnau newydd yn cael eu cyflwyno'n fynych. Dylid sicrhau bod gan y dysgwyr wybodaeth am y darpariaethau diweddaraf, hyd yn oed os nad oeddent yn bodoli ar adeg cyhoeddi'r fanyleb.**

**Nod dysgu A: Deall y prosesau y mae'n rhaid eu dilyn ar hyd ymchwiliad troseddol gan y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol sy'n gyfrifol**

Mae egwyddorion, fframwaith a phrosesau Nod dysgu A yn ddamcaniaethol eu natur, ond dylid eu harchwilio yng nghyd-destun astudiaeth achos wirioneddol. Bydd plotio'r gyfres o ddigwyddiadau o roi gwybod am y drosedd hyd at baratoi a chyflwyno tystiolaeth yn y llys yn rhoi dealltwriaeth ymarferol i'r dysgwyr o'r prosesau y mae'n rhaid eu dilyn. Mae angen i'r dysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o sut mae'r prosesau ymchwilio'n amrywio yn ôl categori'r dramgwydd droseddol. Rhaid i'r dysgwyr ddatblygu gwybodaeth fras am egwyddorion cyfraith droseddol. Dylent gwmpasu baich y profi mewn cyfraith droseddol, mathau o drosedd (e.e. yn erbyn person/eiddo/trefn gyhoeddus), categori troseddau (e.e. ditiadwy/annitiadwy/prawf-neillffordd), elfennau tramgwydd droseddol (*actus reus/mens rea*) a rhoi tystiolaeth ar lw.

### Nod dysgu B: Archwilio'r dulliau ymchwilio, yr adnoddau a'r gwahanol fathau o dystiolaeth a ddefnyddir mewn ymchwiliadau troseddol

Ar gyfer Nod dysgu B, rhaid i'r dysgwyr archwilio'r dulliau ymchwilio, y ffynonellau a'r mathau gwahanol o dystiolaeth a ddefnyddir mewn ymchwiliadau troseddol gan y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol sy'n gyfrifol. Rhaid iddynt ystyried sut mae mynd ati i ganfod a lleoli tystiolaeth (e.e. chwiliadau cyffredinol, ymholiadau o dŷ i dŷ, ffynonellau gwybodaeth a chyfweliadau ymchwilio). Gallai'r dysgwyr ddefnyddio'r un astudiaeth achos ag ar gyfer Nod dysgu A i archwilio a gwerthuso'r gwahanol ddulliau ymchwilio ac adnoddau a ddefnyddir i gasglu'r gwahanol fathau o dystiolaeth sy'n ofynnol i fodloni'r egwyddorion yn A1.

Trafodwch gyda'r dysgwyr fanteision ac anfanteision amrywiol ddulliau o gasglu tystiolaeth, yn ogystal â chryfderau a gwendidau'r gwahanol fathau o dystiolaeth. Archwiliwch ganlyniadau posibl peidio â defnyddio prosesau a gweithdrefnau priodol i gasglu tystiolaeth. Byddai'n ddefnyddiol defnyddio enghreifftiau astudiaethau achos o adegau pryd y digwyddodd hyn.

### Nod dysgu C: Ymchwilio i'r gweithdrefnau a ddefnyddir i ddiogelu safle trosedd a chadw tystiolaeth

Mae Nod dysgu C yn gofyn bod y dysgwyr yn archwilio'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan y gwasanaethau amddiffyn perthnasol sydd â gwisg swyddogol i ddiogelu safle trosedd a chadw tystiolaeth. Mae'n ymarferol ei natur, gan ei fod yn gofyn bod y dysgwyr yn diogelu safle trosedd ffug. Dylech ystyried defnyddio rhaglenni dogfen, rhestrau gwirio, cwisiau a phrofion i sicrhau bod y dysgwyr yn deall y gweithdrefnau sy'n ofynnol i ddiogelu safle trosedd a chanlyniadau methu â chadw atynt cyn cychwyn ar eu hasesiad.

Tra bod cael hyd i leoliadau fydd yn rhoi profiad perthnasol ym maes ymchwiliadau troseddol yn dipyn o her, mae digonedd o deithiau ac ymweliadau ar gael. Bydd yr Amgueddfa Gyfiawnder Genedlaethol yn rhoi persbectif hanesyddol diddorol, ond mae hefyd fel arfer yn werth cysylltu â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn eich ardal. Maen nhw fel arfer yn awyddus iawn i ymgysylltu â phobl ifanc, ac yn aml bydd eu swyddfa yn eich helpu i hwyluso ymweliadau gan swyddogion heddlu ac â nhw. Bydd hyn yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer Nodau dysgu B ac C.


Pearson BTEC Cenedlaethol yn y Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol – Canllaw Cyflwyno – Argraffiad 1 – Mawrth 2022 © Pearson Education Limited 2022

## Model asesu

<table>
<tr><th>Nod dysgu</th><th>Meysydd cynnwys allweddol</th><th>Dull asesu a argymhellir</th></tr>
<tr><td>A Deall y prosesau y mae'n rhaid eu dilyn ar hyd ymchwiliad troseddol gan y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol sy'n gyfrifol</td><td>A1 Egwyddorion cyfraith droseddol<br>A2 Fframwaith cyfreithiol<br>A3 Y broses o safle'r drosedd i'r llys</td><td>Adroddiad sy'n gwerthuso'r egwyddorion a'r arferion cyfreithiol sy'n rhan o ymchwiliad troseddol.</td></tr>
<tr><td>B Archwilio'r dulliau ymchwilio, yr adnoddau a'r gwahanol fathau o dystiolaeth a ddefnyddir mewn ymchwiliadau troseddol</td><td>B1 Chwiliadau<br>B2 Ymholiadau o dŷ i dŷ<br>B3 Ffynonellau gwybodaeth<br>B4 Cyfweliadau ymchwilio<br>B5 Adnoddau a thechnegau sydd ar gael i'r tîm ymchwilio</td><td rowspan="2">Adroddiad sy'n archwilio'r dulliau ymchwilio, yr adnoddau a'r gwahanol fathau o dystiolaeth a ddefnyddir mewn ymchwiliad troseddol.<br>Safle trosedd ffug lle mae modd archwilio'r dulliau a ddefnyddir i ddiogelu safle trosedd a chadw tystiolaeth. Dylai cofnod arsylwi aseswr a thystiolaeth y dysgwr fodoli ochr yn ochr.</td></tr>
<tr><td>C Ymchwilio i'r gweithdrefnau a ddefnyddir i ddiogelu safle trosedd a chadw tystiolaeth</td><td>C1 Dulliau a ddefnyddir i ddiogelu safle trosedd<br>C2 Dulliau a ddefnyddir i gadw tystiolaeth o safle trosedd</td></tr>
</table>

## Canllawiau asesu

Asesir yr uned hon yn fewnol. Y dull asesu a argymhellir yw dim mwy na dau frîff aseiniad – un aseiniad ar gyfer Nod dysgu A ac un arall sy'n cyfuno Nodau dysgu B ac C. Rhaid i'r dysgwyr gynhyrchu tystiolaeth unigol y mae modd ei dilysu. Y ffynonellau tystiolaeth a awgrymir yw adroddiadau ysgrifenedig a gweithgaredd ymarferol sy'n gofyn bod y dysgwr yn ymchwilio i safle trosedd ffug. Mae'r adroddiadau ysgrifenedig yn debygol o ddarparu disgrifiadau, trafodaethau a chymhwysiad, dadansoddiad a gwerthusiad o'r meysydd cynnwys allweddol. Mae hefyd yn bosibl y gallai peth o'r dadansoddi ar ffurf cymhwyso, trafodaeth ac esboniadau ddeillio o ymarferion chwarae rôl. Lle digwydd hynny, fel yn achos y gweithgaredd ymarferol sy'n ofynnol yn Nod dysgu C, rhaid i'r dystiolaeth fod ar ffurf cofnodion arsylwi/datganiadau tystion a gefnogir â nodiadau, fideo a/neu ffotograffau. Lle defnyddir y math yma o dystiolaeth, mae'n hanfodol sicrhau bod pob dysgwr unigol yn cyfrannu'n ddigonol i ddarparu tystiolaeth ddigonol, a dylai pob cyflwyniad fod yn unigryw i'r dysgwr dan sylw, yn hytrach nag yn un cyffredinol ar gyfer grŵp o ddysgwyr. Nid yw cofnodion arsylwi/datganiadau tystion yn unig yn ddigonol fel tystiolaeth asesu.

Ar gyfer Nod dysgu A, rhaid archwilio'r egwyddorion, y fframwaith a'r broses a ddefnyddir ar hyd ymchwiliad troseddol, yng nghyd-destun astudiaeth achos berthnasol, wirioneddol. Gan fod rhaid rhoi sylw i bob un o'r tri chategori o droseddu, awgrymir bod trosedd dditiadwy yn cael ei dewis ar gyfer yr astudiaeth achos, ac yna gall cymhariaeth fer â'r categorïau eraill o droseddau (annitiadwy a phrawf-neillffordd) ddilyn. I gefnogi'r cynnwys diweddarach, y drosedd dditiadwy fwyaf addas i'w dewis fyddai llofruddiaeth.

Dylai'r dysgwyr fynd trwy'r astudiaeth achos gan nodi'r broses o safle'r drosedd hyd at y treial. Gan fod safle'r drosedd yn derbyn sylw mwy manwl yn Nodau dysgu B ac C, nid oes angen ond crynhoi manylion safle'r drosedd ar gyfer Nod dysgu A. Rhaid i'r dysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o'r Deddfau perthnasol sy'n ymwneud ag ymchwilio i droseddau (Nod dysgu A2).

Er mwyn symud ymlaen i dreial, bydd angen i'r dysgwyr nodi math a chategori'r drosedd (os yw'n llofruddiaeth, mae'n drosedd dditiadwy yn erbyn y person). Yna rhaid iddynt ddadansoddi a gwerthuso elfennau'r drosedd, h.y. yr *actus reus* (os llofruddiaeth – lladd bod dynol yn anghyfreithlon) a'r *mens rea* (os llofruddiaeth – â malais bwriadus), y dylid eu harchwilio a'u cefnogi ag awdurdod cyfreithiol perthnasol ar ffurf Deddfau Seneddol a/neu gyfraith achosion. Dylid dilyn hynny â'r gofynion o ran tystiolaeth i fodloni'r elfennau hyn, e.e. bod baich y profi ar yr erlyniad i ganfod euogrwydd y diffynydd y tu hwnt i bob amheuaeth resymol, a sut caiff hynny ei gyflawni a'i esbonio wrth y rheithgor.

Ar gyfer Nod dysgu B, bydd angen rhoi sawl achos gwahanol i'r dysgwyr, er mwyn iddyn nhw fedru ymchwilio i'r gwahanol fathau o dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer gwahanol fathau o droseddau. Rhaid i'r dysgwyr ystyried sut cafodd y dystiolaeth ei chasglu ym mhob achos, yn ogystal â'r gwahanol adnoddau a thechnegau sydd ar gael i'r tîm sy'n ymchwilio. Yna bydd angen iddynt asesu a gwerthuso defnydd ac effeithiolrwydd gwahanol fathau o dystiolaeth a dulliau mewn perthynas â'r achosion hyn. I wneud hynny, dylai'r achosion a ddewisir fod yn amrywiol a dylent gynnwys achosion o gamweinyddu cyfiawnder, lle cafodd tystiolaeth ei hannilysu'n ddiweddarach, a/neu achosion lle sicrhaodd dulliau arloesol o ddarparu tystiolaeth euogfarn annisgwyl. Gallai fod yn ddefnyddiol hefyd gynnwys achos lle nad oedd tystiolaeth ffisegol y gellid ei dilysu'n wyddonol, megis rhai o'r achosion 'cam-drin rhywiol hanesyddol' lle roedd y dystiolaeth yn dibynnu'n llwyr ar air tystion.

 © Pearson Education Limited 2022


Gan fod Nod dysgu C yn galw am ymchwilio i safle trosedd ffug, argymhellir bod hynny'n cael ei wneud naill ai mewn cydweithrediad ag adran wyddoniaeth eich canolfan neu gyda'ch sefydliad AU lleol sy'n cynnig cyrsiau fforensig. Dylai'r dysgwyr fynd ati i chwarae rôl a dyrannu rolau er mwyn diogelu safle'r drosedd, ac yna defnyddio dulliau priodol i gadw'r dystiolaeth sydd ar safle'r drosedd. Oherwydd y bydd angen cwblhau adroddiadau arsylwi, argymhellir tynnu lluniau fideo a/neu lonydd o'r olygfa a gwaith y dysgwyr. Bydd hynny'n golygu bod modd cwblhau'r cofnod arsylwi sy'n ofynnol gan fanyleb yr uned, ond bydd hefyd yn rhoi cyfle i'r dysgwyr fyfyrio ar y dulliau a ddefnyddiwyd ganddynt a'u gwerthuso.

## Cychwyn arni

Yma cewch fan cychwyn ar gyfer un dull o gyflwyno'r uned, wedi'i seilio ar y dull asesu a argymhellir yn y fanyleb.

| **Uned 18: Gweithdrefnau ac Ymarfer Ymchwiliadau Troseddol** |
| --- |
| **Cyflwyniad**<br>Bydd gofyn bod y dysgwyr yn archwilio elfennau allweddol o'r prosesau a'r gweithdrefnau sy'n rhan o ymchwiliad troseddol. Rhaid iddynt ddeall y prosesau allweddol y mae angen i'r gwasanaethau amddiffyn perthnasol sydd â gwisg swyddogol eu dilyn wrth gynnal ymchwiliad troseddol, sut caiff tystiolaeth ei chasglu a sut a pham mae safle trosedd yn cael ei ddiogelu. Gellid cyflwyno'r uned mewn modd cyfannol, gan fynd trwy'r broses o'r cychwyn, e.e. yr heddlu yn derbyn ac yn cofnodi'r alwad 999 hyd at yr adeg lle rhoddir tystiolaeth yn y llys. Gan fod yr asesu'n dibynnu ar y dysgwyr yn archwilio achosion go iawn, gallai cyflwyno'r uned hon fod yn fwyaf ystyrlon i'r dysgwyr wrth archwilio yng nghyd-destun achos go iawn y mae modd olrhain ei hynt o'r dechrau i'r diwedd; enghraifft dda o hynny fyddai achos y llofrudd cyfresol Christopher Halliwell. |
| **Nod dysgu A: Deall y prosesau y mae'n rhaid eu dilyn ar hyd ymchwiliad troseddol gan y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol sy'n gyfrifol** |
| Bydd angen i A1 gychwyn â throsolwg o'r broses cyfiawnder troseddol er mwyn rhoi egwyddorion cyfraith droseddol yn eu cyd-destun. Y ffordd orau o wneud hynny fydd yng nghyd-destun trosedd fel llofruddiaeth.<br>• Yn gyntaf, bydd angen i'r dysgwyr ddeall hierarchaeth y llysoedd troseddol. Gallai'r dysgwyr weithio'n unigol neu mewn grwpiau bach i lunio diagram yn nodi awdurdodaeth y llysoedd troseddol er mwyn rhoi'r llysoedd yn eu cyd-destun fel rhan o'r broses cyfiawnder troseddol.<br>• Nesaf byddai trafodaeth dan arweiniad y tiwtor ar y mathau o drosedd (e.e. yn erbyn person/eiddo/trefn gyhoeddus) a chategorïau troseddau (e.e. ditiadwy, annitiadwy, troseddau prawf-neillffordd) yn ddefnyddiol. Wedi'r drafodaeth, gallech chi roi rhestr helaeth o droseddau i'r dysgwyr a gofyn iddyn nhw eu categoreiddio'n gywir fel a ganlyn:<br>  ○ Gwir Niwed Corfforol (ABH) – Prawf-neillffordd – trosedd yn erbyn y person<br>  ○ Llosgi Bwriadol – Ditiadwy – trosedd yn erbyn eiddo<br>  ○ Meddw ac Analluog – Diannod – trosedd Trefn Gyhoeddus<br>• Yna bydd angen i'r dysgwyr ddysgu elfennau'r holl dramgwyddau troseddol yn gyffredinol. Efallai mai'r dull gorau o wneud hynny yw ar ffurf diagram, o bosib trwy greu arddangosfa ar wal y dosbarth, gyda'r penawdau canlynol, y gall y dysgwyr eu hanodi wedyn â diffiniadau a chyfraith achosion perthnasol, megis: |

 © Pearson Education Limited 2022




Gallai'r achosion sydd i'w dadansoddi yn y cyd-destun hwn gynnwys:

| | | |
|---|---|---|
| Fagan v MPC 1969 | Hill v Baxter 1958 | R v Dytham 1979 |
| R v Pittwood 1902 | R v Stone & Dobinson 1977 | R v White 1910 |
| R v Pagett 1983 | R v Blaue 1975 | R v Roberts 1971 |
| R v Cheshire 1991 | R v Jordan 1956 | R v Smith 1959 |
| R v Latimer 1886 | R v Pembliton 1874 | R v Larsonneur 1933 |
| R v Mohan 1976 | R v Nedrick 1976 | R v Woollin 1998 |
| R v Cunningham 1957 | R v Adomako 1994 | R v Dudley & Stephens 1884 |

- Unwaith bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, byddai'n synhwyrol mynd at Nod dysgu A3 er mwyn edrych ar y broses droseddol o safle'r drosedd i'r llys. Gallai'r tiwtoriaid arwain trafodaeth yn amlinellu pob cam o'r broses: (e.e. ymateb cychwynnol i adroddiad am drosedd, ymchwiliadau rhagarweiniol a dilynol, ystafell ymchwiliad, ffactorau sy'n rhoi arweiniad a gwahanol drywyddau ymholi, casglu a dadansoddi tystiolaeth, rôl gwasanaeth erlyn y goron, ysgrifennu adroddiad a chyflwyno tystiolaeth yn y llys).

  Wedi'r cyflwyniad, gallai'r dysgwyr weithio mewn grwpiau bach i greu eu llifsiartiau eu hunain yn amlinellu pob cam mewn ymchwiliad troseddol. Dylai'r dysgwyr ystyried gwerth gwahanol fathau o dystiolaeth a diben y llw, e.e. i gyflawni safon y profi, sy'n faich ar yr erlyniad, ac sydd felly'n dangos y cysylltiad rhwng A1 ac A3.
- Pan fydd y llifsiart uchod wedi'i gwblhau, gallai'r dysgwyr gwblhau tabl o'r Deddfau a geir yn Nod dysgu A2. Mae gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig wefan ddefnyddiol y ceir hyd iddi trwy chwilio ar-lein am 'legislation.gov', a gallai'r dysgwyr ei defnyddio'n rhan o'u gwaith ymchwil. Rhaid iddynt ystyried pwrpas a pherthnasedd y Deddfau hyn ar gyfer y broses ymchwiliadau troseddol. Argymhellir bod y dysgwyr yn cael eu cyfeirio at y testun rhagarweiniol a thabl y cynnwys, yn hytrach na chael eu gadael i dyrchu trwy fynyddoedd o ddarpariaethau deddfwriaethol.

**Nod dysgu B: Archwilio'r dulliau ymchwilio, yr adnoddau a'r gwahanol fathau o dystiolaeth a ddefnyddir mewn ymchwiliadau troseddol**

Mae'r nod dysgu hwn yn edrych ar sut caiff tystiolaeth ei chasglu mewn achosion troseddol. Gallech chi gychwyn trwy ddod o hyd i enghreifftiau o amrywiaeth o droseddau a gofyn i'r dysgwyr asesu a gwerthuso'r dulliau mwyaf priodol o gasglu tystiolaeth ar gyfer gwahanol fathau o droseddau a rhai a ddrwgdybir. Byddai'n arbennig o ddefnyddiol edrych ar droseddau sydd o ddiddordeb ar hyn o bryd, gan y bydd llawer o adnoddau newyddion y gallwch eu defnyddio i roi'r dysgu yn ei gyd-destun, er enghraifft:

- Ymosodiad brawychol
  - Chwiliadau – am ddeunydd ffisegol
  - Ymholiadau o dŷ i dŷ – i gasglu gwybodaeth, achosion posibl o weld a rhoi sicrwydd
  - Ffynonellau gwybodaeth – cronfeydd data, cyfryngau cymdeithasol, biofetreg
  - Cyfweliadau – amharod, arbenigol, tystion
  - Adnoddau – cymhorthion technegol, yr Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Trosedd (a ddisodlodd SOCA), y Weinyddiaeth Amddiffyn, Asiantaethau rhyngwladol, proffilio, gwyliadwriaeth.
- Lladrad moped
  - Chwiliadau – am ddeunydd ffisegol, cofnodion ffôn
  - Ymholiadau o dŷ i dŷ – i gasglu gwybodaeth, achosion posibl o weld a rhoi sicrwydd
  - Ffynonellau gwybodaeth – cronfeydd data, cyfryngau cymdeithasol, DVLA
  - Cyfweliadau – dioddefydd, rhywun a ddrwgdybir, tystion, tystiolaeth llygad-dystion
  - Adnoddau – cymhorthion technegol, AMPR
- Ymosodiad rhywiol hanesyddol
  - Chwiliadau – am ddeunydd fforensig
  - Ffynonellau gwybodaeth – y gofrestr etholiadol, cofnodion personol
  - Cyfweliadau – pobl agored i niwed, cyfwelyddion arbenigol
- Masnachu pobl
  - Cyfweliadau – pobl agored i niwed, tystion amharod
  - Adnoddau – cymhorthion technegol, yr Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Trosedd (a ddisodlodd SOCA), y Weinyddiaeth Amddiffyn, Asiantaethau rhyngwladol, proffilio, gwyliadwriaeth.
  - Asiantaethau rhyngwladol

Yna gellid archwilio'r dulliau hyn o gasglu tystiolaeth yng nghyd-destun rhai ymchwiliadau pwysig. Gallai'r canlynol fod yn astudiaethau achos defnyddiol i'w defnyddio: diflaniad Shannon Matthews yn 2008, ymchwiliad Christopher Halliwell (gellid gwerthuso'r achos hwn yn sgîl y ffaith iddo gael ei ryddfarnu ar y cychwyn, ond yn ddiweddarach ei euogfarnu am lofruddiaeth Becky Godden).

| **Nod dysgu C: Ymchwilio i’r gweithdrefnau a ddefnyddir i ddiogelu safle trosedd a chadw tystiolaeth** |
|---|
| Mae Nod dysgu C yn edrych ar y gweithdrefnau a ddefnyddir i ddiogelu safle trosedd a chadw tystiolaeth. Mae’r ail aseiniad ar gyfer yr uned hon yn galw am gynnal ymchwiliad i safle trosedd ffug. Argymhellir bod hyn yn cael ei wneud naill ai mewn cydweithrediad ag adran wyddoniaeth eich canolfan neu gyda’ch sefydliad AU lleol sy’n cynnig cyrsiau fforensig.<br>• Gellid archwilio’r dulliau a ddefnyddir i ddiogelu a chadw safle trosedd a thystiolaeth trwy ymchwil unigol y dysgwyr. Mae nifer o fideos ar YouTube a bostiwyd gan adrannau fforensig prifysgolion a heddluoedd a fydd yn rhoi cipolwg ar y dulliau i’r dysgwyr heb iddyn nhw orfod gadael yr ystafell ddosbarth. Gofalwch fod y fideos mae’r myfyrwyr yn eu cyrchu yn dod o Brydain, gan fod technegau tramor yn debygol o fod yn sylweddol wahanol a chynhyrchu tystiolaeth na ellir ei derbyn yn llysoedd y Deyrnas Unedig. Cyfeiriwyd at ambell un o’r rhain yn yr adran adnoddau isod.<br>• Gan fod angen i’r dysgwyr chwarae rôl wrth gasglu a chadw tystiolaeth ar safle trosedd ffug, byddai’r rhan hon o’r nod dysgu yn ddelfrydol yn digwydd ochr yn ochr â’r asesiad. Byddai angen sicrhau lefel o gyflwyniad ac esboniad cyn i hyn ddigwydd. Ystyriwch ddefnyddio rhaglenni dogfen, rhestrau gwirio, cwisiau a phrofion i sicrhau bod y dysgwyr yn deall y gweithdrefnau a’r dulliau a ddefnyddir i gadw tystiolaeth a chanlyniadau methu â chadw atynt, cyn cychwyn ar yr asesiad. Bydd hynny’n helpu’r dysgwyr i werthuso’r dulliau maen nhw’n dewis eu defnyddio yn eu hasesiad a’r rhai maen nhw’n dewis peidio â’u defnyddio. Fel y soniwyd yn y canllawiau asesu, y dull mwyaf priodol o gyflwyno’r elfen hon fydd mewn cydweithrediad â sefydliad AU sy’n cynnig cwrs fforensig, neu gydag adran wyddoniaeth eich canolfan – efallai mewn cydweithrediad â’r BTEC Cenedlaethol mewn Ymchwiliadau Troseddol a Fforensig. |

### Manylion y cysylltiadau ag unedau a chymwysterau BTEC eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu â'r canlynol:

- Uned 13: Cyflwyniad i Droseddeg
- Uned 15: Pwerau'r Heddlu a'r Gyfraith.

Mae hefyd yn cysylltu'n dda â phynciau Cenedlaethol eraill cysylltiedig, gan gynnwys Ymchwiliadau Troseddol a Fforensig a Chyfraith Gymhwysol.

## Adnoddau

Yn ogystal â'r adnoddau a restrir isod, mae cyhoeddwyr yn debygol o gynhyrchu gwerslyfrau a gymeradwywyd gan Pearson sy'n cefnogi'r uned hon o'r BTEC Cenedlaethol. Edrychwch ar wefan Pearson (http://qualifications.pearson.com/endorsed-resources) i gael rhagor o wybodaeth wrth i deitlau gael eu cymeradwyo.

### Llyfrau

*Catching a Serial Killer: My hunt for murderer Christopher Halliwell.* Stephen Fulcher, Cyhoeddwr: Ebury Publishing ISBN: 9781785036279.

Mae'r llyfr hwn yn gofnod gan y Ditectif oedd â gofal am ymchwiliad i lofrudd cyfresol, ac mae'n afaelgar, yn ogystal â bod yn ddefnyddiol ar gyfer bron holl gynnwys yr uned hon, ond yn arbennig A2, A3, B4.

### Fideos

Fideos newyddion yn ymwneud ag achos Christopher Halliwell:

Chwiliwch ar YouTube am '*Becky Godden murder: Christopher Halliwell convicted*'.

Chwiliwch ar YouTube am '*Christopher Halliwell: ex-detective claims links to six other killings*'.

Fideos gan heddluoedd Prydain yn dangos rolau arbenigwyr mewn ymchwiliadau troseddol:

Chwiliwch ar YouTube am '*Behind the Crime: Murder – Crime scene co-ordinator*'.

Chwiliwch ar YouTube am '*Scenes of Crime Officer*'.

Chwiliwch ar YouTube am '*Behind the scenes with forensic scene investigators*'.

### Gwefannau

Fframwaith Cymhwysedd a Gwerthoedd y Coleg Plismona:
https://www.college.police.uk/career-learning/career-development/competencyand-values-framework-cvf

The Guardian – *An introduction to the Christopher Halliwell story*
https://www.theguardian.com/global/2017/jun/25/catching-a-serial-killerstephen-fulcher-police


Pearson BTEC Cenedlaethol yn y Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol – Canllaw Cyflwyno – Argraffiad 1 – Mawrth 2022 © Pearson Education Limited 2022